

Baby Basics – Diolch

Mae cangen Dyffryn Clwyd o elusen Baby Basics UK wedi bod yn rhedeg ers dwy flynedd a mwy bellach ac yn awyddus i ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r elusen hyd yn hyn. Er bod y dyffryn yn ardal o gyfoeth mawr, mae angen mawr hefyd: rhoddwyd help i 52 o deuluoedd yn 2020, i 108 o deuluoedd yn 2021, ac, hyd at fis Mai 2022, rhoddwyd cymorth i 96 o deuluoedd. Ers mis Mawrth 2021 mae Baby Basics yn rhentu uned ger y ganolfan ailgylchu yn Stad Colomendy – Uned B10, Trem y Dyffryn, LL16 5TX. Mae'r uned ar agor yn gyson bob bore Mercher: croeso i chi alw heibio am baned ac i ddysgu ychydig mwy am eu gwaith.

Sut mae Baby Basics yn gweithio?

Bydd y ganolfan Baby Basics yn derbyn atgyfeiriad ('referral') gan rywun arall – bydwaig, gweithiwr cymdeithasol, neu weithiwr proffesiynol arall sy'n dod ar draws rhywun mewn angen. Bydd y ganolfan wedyn yn creu pecyn ar eu cyfer. Gan amlaf, bydd y pecyn yn cynnwys: basged moses yn llawn eitemau; bag llawn nwyddau i fynd i'r ystyby i'r fam; pecynnau o ddillad i blentyn hyd at 3 oed (*babygrows*, sanau, hetiau, cardigans ac yn y blaen); blancedi a thyweli; eitemau ymolchi a hylendid i'r fam a'r plentyn; ac unrhyw eitemau eraill addas sydd mewn stoc ar y pryd (e.e. pram, giatau grisiau, *sterilisers*, ac yn y blaen)

Mae cymaint o bobl wedi bod yn gefnogol iawn dros y blynyddoedd diwethaf ac maen nhw'n awyddus i ddweud "**diolch o waelod calon**" wrth bawb sydd wedi rhoi dillad a nwyddau iddyn nhw, i bawb sydd wedi gweu dillad a blancedi, ac i gwmnïau sydd wedi rhoi eitemau iddyn nhw. Yn anffodus, mae galw mawr am waith elusennau fel Baby Basics ar hyn o bryd. Dyma rai ffyrdd y gallwch gefnogi'r gwaith:

- **Trefnu casgliad arbennig o nwyddau yn eich gwaith, gyda'ch ffrindiau, neu yn eich capel/eglwys.**
- **Os ydych chi'n dda â'ch dwylo – beth am wneud blancedi, cardigan neu hetiau i fabis/plant bach?**
- **Cefnogi'n ariannol** – Mae llawer o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn dibynnu ar roddion o ddillad a nwyddau, ond mae angen arian arnynt hefyd i logi'r uned yn Ninbych ac i dalu am rai nwyddau na ellir eu hailddefnyddio. Os ydych chi'n medru, byddent yn gwerthfawrogi petaech yn ystyried rhoi swm fach y mis i gefnogi'r gwaith. Gallwch roi trwy glicio ar y ddolen yma: www.stewardship.org.uk/partners/20397064 neu mae croeso i chi anfon sic i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' gyda 'Baby Basics Dyffryn Clwyd' wedi ei ysgrifennu ar y cefn.
- **Gweddio dros eu gwaith a thros bawb sy'n gweithio dros bobl mewn angen yn yr ardal hon.** Dywedodd Iesu, 'Mae rhoi yn llawer gwell na derbyn' (Actau 20:35) Calon y neges Gristnogol yw fod gennym ni Dduw caredig sydd wedi rhoi i ni yn ein hangen. Ein braint ni yw cael rhoi'n hael i eraill, a dyna yw'r cymhelliant y tu ôl i waith Baby Basics fel elusen. Os ydych chi'n gweddio, cofiwch felly am waith Baby Basics, ac am y rheiny sy'n cael eu gwasanaethu ganddynt.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 19 Mehefin 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Tybed ydych chi wedi cael profiad tebyg: cael eich atgoffa o lyfr, ffilm neu gyfres deledu arbennig, a phenderfynu ail-ymweld â'r hyn a roddodd y fath fwynhad i chi? Dyna ddigwyddodd i mi yn dilyn fy sgwrs ddiweddar ar zoom gyda Gwilym ac Alex Tudur. Soniodd Gwilym am gyfrol Dane Ortlund, *Gentle and Lowly: The Heart of Christ for Sinners and Sufferers*, a gwnaeth hynny i mi feddwl llawer am y gyfrol arbennig hon a ddarllenais ddwy flynedd yn ôl.

Dwi'n siŵr bod nifer ohonom wedi teimlo'r ofnau hynny sy'n codi cyn cyfweliad swydd, neu wynebu'r tensiwn annifyr cyn cyfarfod â rhywun lle'r ydych yn ansicr sut dderbyniad gewch chi? Wrth gwrs gall sefyllfaoedd o'r fath fynd yn dda neu'n ddrwg, ond mor hyfryd yw gweld yr ofnau a'r tensiwn yn diflannu'n sydyn oherwydd y ffordd garedig y cawsom ein trin gan eraill. Bryd hynny byddwn yn sylweddoli mai'r hyn oedd wedi achosi'r annifyrrwch o flaen llaw oedd ein darlun anghywir o'r bobl yr oeddem am eu cyfarfod.

Ac mewn ffordd, dyna ddadl awdur *Gentle and Lowly*; ein bod yn tueddu i feddwl am Dduw mewn ffordd sy'n gwbl groes i bwy ydyw mewn gwirionedd, yn enwedig felly pan fyddwn yn profi gorthymderau neu'n delio ag euogrwydd. Gallwn greu darlun negyddol o'r Arglwydd fel un sy'n ddi-hid am ein cyflwr ac yn llym yn Ei ymwneud â ni pan fyddwn ar ein gwannaf.

Yn hytrach, anogaeth y gyfrol yw y dylem drwytho'n hunain yn yr hyn sy'n cael ei ddatgelu i ni am Dduw yn ei Air. Dyma le y cofnodwyd hanes y Duw tragwyddol yn arwain a chadw Ei bobl dros y canrifoedd, cyn dod mewn cnawd yn Iesu Grist i achub y colledig. Wrth i ni ddarllen a myfyrio ar yr hyn sydd yn y Beibl, gyda chymorth yr Ysbryd Glân gallwn weld fod yna gysondeb trwyddo. Cawn ein cyflwyno i Dduw sy'n amyneddgar, yn garedig ac yn drugarog, yn maddau beiau ond eto ddim yn gadael i'r euog fynd heb ei gosbi. (Exodus 34:6-7 beibl.net)

Ac yng Ngair Duw y gwelwn un o wahoddiadau hyfrytaf yr Arglwydd Iesu, sy'n gysur i ni heddiw, ac sy'n dangos rhywbeth arbennig am galon neu gymeriad Duw: "*Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystira i chwi. Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf, oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon, ac fe gewch orffwystira i'ch eneidiau. Y mae fy iau i yn hawdd ei dwyn, a'm baich i yn ysgafn.*" (Mathew 11:28-30)



Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Mehefin 19^{eg}

- **Oedfa Gymun yn Llansannan** am 9:30 ac **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa i'r Daith (Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes) yn Llanefydd** am 10:30 o dan arweiniad y Parch. John Robinson.
- **Oedfa'r Fro yn Llansannan** am 6:00 yr hwyr. Arweinir yr oedfa gan Celfyn a bydd Rhodri yn pregethu.

Nos Lun, Mehefin 20^{fed} a Phnawn Gwener, Mehefin 24^{ain}

- **'Y Salmu'** – Y pumed sesiwn mewn cyfres o chwech astudiaeth Feiblaidd o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Gellir ymuno (ar ZOOM) naill ai ar nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar brynhawn Gwener am 1:30. (*Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071*) Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.

Dydd Sul, Mehefin 26^{ain}

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **Oedfa yn Llanfair** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Hywel Meredydd. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Mr Dafydd Picton Jones.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

Dydd Sul, Gorffennaf 3^{ydd}

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Eric Greene. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.

- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac **yn Llanefydd** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Aneurin Owen.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa'r Fro yn Llansannan** am 6:00 yr hwyr gyda Rhodri yn pregethu.

Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Gwen Hughes (Cefn Meiriadog) a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam Gwen, Mrs Ivora Vaughan Roberts. Cyflwynwn y teulu i gyd i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn profi nerth a chariad Duw yn eu cynnal y dyddiau hyn.

Anfonwn ein cofion heddiw at nifer o'n haelodau sydd heb fod yn dda eu hiechyd. Cofiwn yn arbennig am Dilys Vaughan (Saron) yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Maelor, a hefyd Gordon Owen (Henllan) yn dilyn ei llawdriniaeth yntau yn Ysbyty Abergele. Mae Llinos Hughes (Cefn Berain) yn cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd, a bu'n rhaid i Richard M. Jones (Cefn Berain) fynd yn ôl i Ysbyty Glan Clwyd am gyfnod. Da clywed ei fod yn well erbyn hyn ac yn ôl yn yr Inffirmari. Mae Glenys Roberts (Llansannan) yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ond da deall ei bod hithau'n gwella a'i bod yn gobeithio cael dod adref yn fuan. Mae sawl un arall yn derbyn gwahanol driniaethau ac eraill wedi gorfod treulio amser yn yr adran ddamweiniau a gofal brys. Gweddiwn y byddwch oll yn cael eich gwarchod a'ch cynnal wrth i chi gryfhau dros yr wythnosau nesaf hyn.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elizabeth Davies (Llanfair) sydd newydd ddathlu penblwydd arbennig, ac i Robert Henry Roberts (Cefn Meiriadog) fydd yn dathlu penblwydd arbennig yn ystod yr wythnos sy'n dod.

Enwebiadau Medal Gee

Cofiwch bod angen i'r enwebiadau sydd i'w hystyried eleni fod wedi cyrraedd Y Parchg. Aled Davies, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli LL53 6SH **erbyn Mehefin 30ain fan hwyraf**. Cliciwch ar y ddolen [Ffurflen Gais Medalau Gee](#) i lawrlwytho ffurflen enwebu, neu cysylltwch â Mair i gael copi papur.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

(Bryn Goleu, Llansannan, DINBYCH LL16 5LF)

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (29^{ain}), os gwelwch yn dda.